



<b>Teitl y Cyfarfod:</b>	<b>Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW 56)</b>		
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	8 Tachwedd 2016	<b>Lleoliad:</b>	YHA Caerdydd Canolog, Stryd Dwyrain Tyndall, Caerdydd, CF10 4BB
<b>Presennol:</b>	Ruth Hall (CNC, Cadeirydd), Carys Drew (CNC), Rhian Jardine (CNC), Howard Davies (CNC), Mark Weston / Jeanne Hyett (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Ray Wood* (Cyngor Mynyddda Cymru), Stuart France (Cyngor Ogofa Cymru), Steve Rayner (Canŵ Cymru), Beverley Penney (Cymdeithas y Mannau Agored), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Richard Neale (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Jean Rosenfeld (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru), Charles de Winton (CLA Cymru), Mark Stafford-Tolley (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gweithgor Rheoli Hawliau Tramwy Cymru), Laura Lewis* (Glandŵr Cymru), Catrin Dellar (LIC), Ieuan Llŷr Jones (LIC), Rebecca Brough (Y Cerddwyr), Gwyn Smith (Sustrans), John Cuthbertson (Y Cerddwyr Anabl), Duncan Green (LARA), Ed Parsons* (Dŵr Cymru), Jont Bulbeck (CNC), * (Y Cerddwyr Anabl), Ruth Rourke (Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad*), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelaau Ieuenctid).		
<b>Ymddiheuriau dau:</b>	Elfyn Jones (Cyngor Mynyddda Cymru)*, Gwenda Owen (Cycling UK), Andrew Stumpf* (Glandŵr Cymru), Rachel Lewis Davies (NFU Cymru), John Morgan (Cynrychiolydd Cenedlaethol Fforymau Mynediad Lleol), Lyn Cadwallader (Un Llais Cymru), Catherine Williams/Paul Donovan (Cymdeithas Twristiaeth Gweithgareddau Cymru), Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Jonathan Davies (Chwaraeon Cymru), Tom Packham *(Dŵr Cymru). Mae * yn dynodi i gynrychiolydd dirprwyol fynychu.		

Rhif eitem:	Eitem	Cam gweithredu
1.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b>	
	<p>Gwnaeth Ruth groesawu pawb i'r cyfarfod. Roedd tri pherson yn dirprwyo ar gyfer y mynychwyr arferol a nododd y cyfarfod nad oedd Elfyn Jones yn gallu dod i'r cyfarfod oherwydd salwch parhaus a thriniaeth feddygol. Cofnododd y cyfarfod ei ddiolch i Elfyn am ei holl gyfraniadau gwerthfawr, a dymuno gwellhad cyflym iddo.</p> <p>Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau.</p>	

**Cam gweithredu 55.3:** Byddai adroddiad Llwybr Arfordir Cymru ar gael yn fuan ac yn cael ei gylchredeg.

**Cam gweithredu 55.5:** Roedd CNC wedi cysylltu â Jonathan Davies, Cyfarwyddwr Rhaglenni ar gyfer Gweithgarwch Corfforol, sef rôl ar y cyd ar gyfer Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru – nid oedd Jonathan yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn ond mae'n awyddus i fynychu'r cyfarfod ym mis Mawrth.

---

## 2. **Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru: canfyddiadau'r adroddiad llawn a gweithdy**

Cyflwynodd Sue Williams, CNC, drosolwg o ganlyniadau Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru.

Mae Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru wedi bod yn weithgar ers 2008, gydag arolygon yn cael eu hailgynnal yn 2011 a 2014. Yn wreiddiol, comisiynwyd yr arolwg gan CCGC a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ond bellach CNC sydd wrth y llyw. Hwn yw'r arolwg mwyaf a chadarnaf o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yng Nghymru, gyda maint sampl terfynol o dros 6,000 o oedolion.

Gwnaeth cyflwyniad Sue gwmpasu'r sail ddaearyddol ar gyfer yr arolwg, prif ganlyniadau'r arolwg diweddaraf, y gweithgareddau hamdden awyr agored y mae pobl yn eu gwneud, a'r lleoedd maent yn ymweld â nhw. Gwnaeth hi hefyd siarad am y pethau oedd yn ysgogi ac yn rhwystro pobl rhag ymgymryd â gweithgareddau hamdden awyr agored, a chanlyniadau mewn perthyn â rhai o'r buddion – economeg ac iechyd.

*(Gweler sleidiau'r cyflwyniad a nodiadau'r siaradwr am fanylion pellach.)*

Mae'r prif adroddiad, yr adroddiad technegol a thablau data llawn wedi cael eu cyhoeddi ac ar gael i'w lawrlwytho o wefan CNC. <https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/welsh-outdoor-recreation-survey/?lang=cy>

Mae CNC wrthi'n ymgymryd â dadansoddiad manylach o feysydd penodol, a bydd yn cyhoeddi cyfres o 'Adroddiadau Ffeithiau Allweddol' byr. Bydd y rhain ar gael erbyn diwedd y flwyddyn ar wefan CNC.

Mae newid sylweddol wedi bod ar gyfer yr holl arolygon o lefelau'r boblogaeth yng Nghymru, gan gynnwys Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, sydd bellach wedi cael eu hintegreiddio i Arolwg Cenedlaethol Cymru newydd ac unigol. Mae hyn yn golygu y bydd

rhywfaint o newidiadau yn y dyfodol. Mae gwaith maes newydd ddechrau ym mis Ebrill 2016 ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol newydd, a byddai'n bosibl darparu gwybodaeth bellach yng nghanol 2017.

### **Gweithdy**

Un o brif ganlyniadau arolwg 2014 oedd y ffaith bod y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn aml wedi disgyn (o 27% i 22%), er gwaethaf bod arferion cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath yn parhau'n uchel (gwnaeth 93% ymweld o leiaf unwaith mewn 12 mis). Y pwynt hwn oedd sail gweithdy o'r enw:

'Mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn aml'.

Ar hyn, rhannodd y cyfarfod yn dri grŵp llai.

Byddai'r pwyntiau o'r gweithdy yn cael eu hysgrifennu a'u rhannu ag aelodau'r fforwm a staff CNC sy'n gweithio ym maes cyngor mynediad a gweithgareddau hamdden.

*Gweler yr atodiad am grynodedb o'r gweithdy.*

### **Pynciau trafod:**

- Pan ofynnwyd a oedd yn bosibl ychwanegu cwestiynau i'r arolwg a'u diwygio, nodwyd ei bod hi'n bwysig bod cwestiynau'r arolwg yn aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn, i alluogi gwaith monitro a chymharu canlyniadau.

**Cam gweithredu 56.1:** Carys Drew i baratoi nodiadau'r gweithdy a'u cylchredeg. Gallai aelodau gyflwyno unrhyw feddyliau pellach ynghylch y drafodaeth i Carys trwy e-bost.

**Cam gweithredu 56.2:** Gwahodd Sue Williams i gyflwyno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru pan fydd y canlyniadau ar gael y flwyddyn nesaf.

---

## **3. Tirweddau dynodedig a mynediad**

Rhannodd Howard Davies, Prif Weithredwr Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, farddoniaeth, dyfyniadau, delweddau a meddyliau ynghylch tirwedd a dangosodd sut roedd gwerth tirwedd ac amgyffrediaid ohoni wedi newid dros y blynyddoedd.

Yn ystod y cyfnod yn fras rhwng y 1750au a 1810, gwelwyd newid yn y DU yn y ffordd yr oedd y dirwedd yn cael ei gwerthfawrogi, o'r clasurol i'r pictiwrésg. Daeth y dirwedd yn bwysig ac yn ffasiynol ar gyfer twristiaeth hefyd, gydag enghreifftiau o gyhoeddiadau a oedd yn canolbwyntio ar dirwedd gan gynnwys taith Dyffryn Gwy (Y Parch

---

William Gilpin 1782) a 'Guide to the Lakes' gan William Wordsworth yn 1810.

Yn 1947, trwy Bwyllgor Hobhouse, enwodd y llywodraeth gyfres o ardaloedd gwarchodaeth a pharciau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr, sy'n cael eu cydnabod yn dirweddau o bwys cenedlaethol a'u cyllido a'u rheoli felly.

Bellach mae 46 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cwmpasu 8,000 milltir sgwâr.

Soniodd Howard am y gwahanol drefniadau rheoli ar gyfer tirweddau gwarchodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) a nododd y gwahaniaethau cychwynnol o ran diben. Mae gan barciau cenedlaethol ddiben tebyg i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sef gwarchod a thanlinellu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, ond mae ganddynt hefyd ddiben eilaidd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau rhinweddau arbennig parciau cenedlaethol gan y cyhoedd. Mae byrddau Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol bellach wedi derbyn diben eilaidd tebyg.

Mae hamdden a mynediad yn cael eu rheoli a'u hyrwyddo o fewn tirweddau gwarchodedig. Er enghraifft, mae naw o'r 11 Llwybr Cenedlaethol yn mynd trwy neu'n agos iawn at Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a chaiff cyfleoedd eu cynyddu ymhellach gyda dynodiad tir mynediad Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Rhannodd Howard enghreifftiau o'r modd y caiff cyfleoedd mynediad eu hyrwyddo yn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan gynnwys ffilm am dirweddau gwarchodedig Cymru sydd ar gael (gyda sain) yma:

<https://www.youtube.com/watch?v=dYkvOgxOfOw&feature=youtu.be>

Rhannwyd dwy enghraifft o brosiectau sy'n ymgysylltu cymunedau â'u tirwedd ac oedd yn bwriadu brwydro yn erbyn iechyd meddwl gwael ac unigedd cymdeithasol. Roedd hi'n bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau ynghylch cynefindra pobl â'r awyr agored a'u hyder o ran defnyddio'r awyr agored.

Roedd y cyd-destun deddfwriaethol wedi newid ac roedd tirweddau gwarchodedig yn gyfarwydd â'r angen i integreiddio gwahanol fathau o waith a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy er mwyn optimeiddio'r gallu i gyflenwi amcanion llesiant. Mae cynlluniau rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gynlluniau cydweithrediadol a arweinir yn lleol ac roeddent yn seiliedig ar broses aeddfed.

Roedd heriau wrth edrych tua'r dyfodol gyda phleidlais Prydain i adael yr UE, a chyfeiriodd at adroddiad 'The State of the State 2015-16' Deloitte fel adroddiad sy'n rhoi trosolwg da o'r holl heriau a wynebir.

<https://www2.deloitte.com/uk/en/pages/public-sector/articles/state-of-the-state.html>

Gorffennodd Howard trwy amlygu pwysigrwydd hamdden awyr agored i wrthsefyll bywydau cynyddol brysur pobl.

#### **Pynciau trafod:**

- Mae tirweddau gwarchoddedig yn cynnig cyfleoedd gwahanol i ardaloedd eraill ar gyfer hamdden a mynediad. Er bod llawer o ardaloedd yng Nghymru'n darparu profiadau o ansawdd uchel, mae rhai agweddau yn elwa am fod mwy o warchodaeth, e.e. awyr dywyll y nos. Yn Lloegr, roedd mwy o gyferbyniad rhwng tirweddau gwarchoddedig ac anwarchoddedig. Yng Nghymru, un o'r pethau mwyaf yw'r isadeiledd sydd wedi cael ei ddatblygu ers y 1950au – elfen sy'n denu pobl sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored.
- O ran sut i ymateb i'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael, nodwyd bod cynlluniau rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gynlluniau y cytunir arnynt sy'n amlinellu'r hyn y mae ei angen ar yr ardal. Mae angen ehangu terfynau'r hyn a olygir wrth 'adnoddau' a pheidio â chyfyngu meddyliau i arian yn unig.
- Mewn ymateb i [Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru](#), ('adroddiad Marsden'), cafodd rhaglen waith ei datblygu i edrych ar bedair agwedd yr adroddiad (llywodraethiant, gweledigaeth, dyfeisgarwch o ran caffael adnoddau, yr economi wledig). Roedd rheolwyr tirweddau dynodedig wedi dod at ei gilydd â diddordebau allanol er mwyn ystyried yr amcan a'r cyfeiriad yn deillio o'r adolygiad a datblygu cynllun gweithredu cydweithrediadol.
- Nodwyd bod cynlluniau datblygu mewn tirweddau gwarchoddedig yn fwy cyfyngiadol ac y gallai hyn gyfyngu ar ddatblygiad economaidd, sy'n angenrheidiol er mwyn i gymunedau ffynnu.
- Cydnabu Howard fod tirweddau yn gynnyrch ymdrech ddynol a heb weithgarwch economaidd byddent yn peidio â gweithredu. Mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae llawer o dirfeddianwyr sy'n ymgysylltu â'r gwaith rheoli a chyfleoedd i bobl gael eu cynnwys. Mae cefnogi ffermio a choedwigaeth yn bwysig; os nad yw pobl ifanc yn cael eu cefnogi, yna ni fydd gan yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ddyfodol.

---

#### **4. Rhannu canfyddiadau'r rhaglen 'Allan â ni!'**

Juliet Michael, CNC

Soniodd Juliet am gefndir y rhaglen 'Allan â ni!', a ddechreuodd yn 2005 i nodi arferion da o blith ystod o fentrau ynghylch annog pobl ddidaro i ymgysylltu â'r awyr agored. Yn dilyn gweithdy rhanddeiliaid a chynlluniau peilot yn 2007-2010, datblygwyd y dull 'Allan â ni!' a nodwyd yr hanfodion er mwyn sicrhau y byddai'n cael ei gyflenwi'n llwyddiannus.

Gwnaeth y dull a ddatblygwyd ategu'r rhaglen deirblwydd 'Allan â ni!', a gynhaliwyd o 2012 i fis Mawrth 2016 ac a gyllidwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, Llywodraeth Cymru a sefydliad Juliet, Cyfoeth Naturiol Cymru. Bwriad y rhaglen oedd ymgysylltu â phobl llai corfforol weithredol mewn ardaloedd difreintiedig i annog iddynt gymryd rhan yn fwy mewn gweithgareddau awyr agored.

Yna amlinellodd Juliet yr wyth pwynt dysgu yn sgil y gwerthusiad o'r rhaglen a rhannodd nifer o astudiaethau achos i arddangos y model cyflawni:

1. Gwerth gweithio ar draws sectorau
2. Mae angen mwy o amser ac adnoddau i fynd i'r afael â rhwystrau amryfal
3. Mae newid ymddygiad yn cymryd amser
4. Model cyflawni – effeithiol ac ailadroddadwy
5. Cysylltu â'r bobl 'sydd ar eu hennill fwyaf' trwy'r sefydliadau sy'n gweithio i'w cefnogi
6. Mae sefydliadau'n gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol pan fo'r buddion i'w defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu harddangos
7. Gall gweithgareddau awyr agored gael eu haddasu i gyflenwi mwy o fuddion
8. Mae'r dull 'Allan â ni!' yn cynnig gwerth am arian

Datblygwyd y [rhaglen ddysgu gweithgareddau awyr agored 'Allan â ni!'](#) i alluogi grwpiau cymuned a darparwyr gwasanaeth i feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i fod yn gyfrifol drostynt eu hunain a'u grwpiau mewn gweithgareddau awyr agored lefel isel. Mae'r rhaglen wedi'i hachredu gydag Agored Cymru.

Nid yw CNC bellach yn cyflenwi'r rhaglen ond bu'r hyn a ddysgwyd yn werthfawr ar gyfer mentrau'r dyfodol ac amcanion lles.

*(Gweler sleidiau'r cyflwyniad a nodiadau'r siaradwr am fanylion pellach.)*

Mae gwybodaeth bellach gan gynnwys ffilm am y rhaglen ar gael ar [wefan CNC](#).

### **Pynciau trafod:**

- Tynnwyd sylw at [brosiect Mosäig yng Nghymru](#) yr oedd Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid ynghlwm wrtho. Nododd Juliet ei bod wedi gweithio'n agos gyda'r prosiect hwn i rannu dysgu.

### **Cam gweithredu 56.3: Carys Drew i gylchredeg y cyflwyniad**

---

## **5. Cyfraniadau gan bawb**

---

Diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau ysgrifenedig, ond fe'u hatgoffwyd i ddefnyddio'u cyfraniad i ddiweddarau ynghylch gwaith eu sefydliad.

Anogodd Ruth yr aelodau i leisio unrhyw bryderon neu faterion sy'n codi mewn perthynas â CNC wrth Carys Drew pan fyddant yn codi fel y gallant gael y sylw mwyaf priodol.

#### **Cam gweithredu 56.4: Yr aelodau i leisio unrhyw bryderon penodol wrth Carys Drew yn hytrach na'u cynnwys yn eu cyfraniad ysgrifenedig.**

##### **Diweddariadau llafar:**

Y Cerddwyr: Rebecca Brough

- Gostyngodd nifer y tîm staff i ddau aelod, ond roedd wrthi'n cael ei gynyddu
- Nid oedd cyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer y prosiect 'Dewch i Gerdded Cymru'
- Bwriedir cynnal Taith Gerdded Fawr Cymru ('The Big Welsh Walk') ym mis Mai 2017 gyda heriau cerdded yn gysylltiedig â'r cefn gwlad yn rhaglen Y Gwyll S4C
- Roedd y Cerddwyr wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn â diffyg cynrychiolwyr mynediad awyr agored ar grŵp a oedd yn cynnwys tîffeddiannwyr a diddordebau bywyd gwyllt.

Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid: Rowland Pittard

- Mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid wedi datblygu cylchgrawn ar-lein
- Roedd Rowland wedi cwrdd â'r pedwar cwmni sy'n gwneud cynnig am ryddfrait llinell reilffordd Cymru a'r Gororau, gyda golwg ar annog y cwmni llwyddiannus i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mwynhau'r awyr agored.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Richard Neale

- Chwaraeon rhwyfo ar arfordir Penfro – mae lefel y chwaraeon antur yn cyrraedd dirlawnbwynt yn Sir Benfro ac maent yn cael eu symud i Geredigion ble mae llai o isadeiledd.

Y Cerddwyr Anabl: John Cuthbertson

- Roedd grŵp wedi mynd allan gyda [rhaglen deledu Coast and Country ITV Cymru Wales](#) (cyfres 4, rhaglen 20) gan ddefnyddio sgwteri Tramper, a dangosodd mor amibwrpas yw'r peiriannau hyn ac roedd wedi ennyn cryn ddiddordeb gan y cyhoedd. Awgrymodd y byddai'n wych pe bai CNC yn gallu gosod peiriannau Tramper ar rywfaint o'i safleoedd.

Canŵ Cymru: Steve Rayner

- Nodwyd anawsterau o ran cael cytundeb ar gyfer sicrhau mynediad at y dŵr a gofynnwyd am gymorth gan sefydliadau

statudol gan gynnwys CNC a Dŵr Cymru i gefnogi'r broses o ddod o hyd i ffordd o gael mynediad.

- Roedd cynllun pasbort APCBB yn dda o ran hynny, ond dim ond i grwpiau cyfundrefnol mae'n berthnasol.

**Nodyn ar ôl y cyfarfod:** *Ers cyhoeddwyd y cyfraniadau hyn mae CNC wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth Sefydliad Gwy ac Wysg sydd wedi datgan eu bod yn anghytuno'n gryf gyda'r datganiad hwn o ran ei gwaith. Rydym yn deall bod Canŵ Cymru a Sefydliad Gwy ac Wysg wedi cyfarfod i drafod y trefniadau mynediad ar afonydd Gwy a'r Wysg.*

CLA Cymru: Charles de Winton

- Mae Brexit yn bwrw cysgod hir ond mae Llywodraeth Cymru'n bod yn weithgar o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid i drafod a chanfod ffordd ymlaen.

Cymdeithas Ceffylau Prydain: Mark Weston/Jeanne Hyett

- Cynigiodd Mark roi cyflwyniad ar y gwaith ar giatiau mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Gall pobl gysylltu â Chymdeithas Ceffylau Prydain am ddeunydd mewn perthynas â'i hymgyrch 'Dead Slow', a oedd yn ymwneud â diogelwch ceffylau a marchogion ar ffyrdd.

LARA: Duncan Green

- Roedd llywodraeth San Steffan wedi rhoi £3 miliwn i ddiweddarau'r map digidol cenedlaethol, a oedd am ddim i gyrff cyhoeddus. Mae'r gallu i ddarparu ffynhonnell wybodaeth sengl yn lleol yn ddymunol.

Cyngor Ogofa Cymru: Stuart France

- Nodwyd nifer o lwyddiannau a methiannau o ran mynediad.
- Roedd yn poeni nad oedd dehongliad CNC o ogofa yn ei gynnwys fel gweithgaredd 'awyr ac ymarfer corff' neu fel gweithgaredd hamdden o dan delerau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Os ydy LIC yn dymuno hyrwyddo Cymru fel man lle gall pobl ddod am antur yna mae'n rhaid i'r dull yma newid.

CNC: Jont Bulbeck

- Gofynnwyd i CNC [gan Stuart France/cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ei ran] ddarparu dehongliad o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a ph'un a ddylai ogofa gael ei ystyried yn weithgaredd 'hamdden awyr agored' o dan delerau'r Ddeddf. Roedd CNC wedi dehongli na ellid ei ystyried felly. Nododd Jont fod DEFRA a Natural England yn rhannu'r safbwynt hwn. Fodd bynnag, yn y pen draw byddai'r gwaith o ddehongli'r gyfraith yn fater i'r llysoedd ei benderfynu.



- Roedd CNC wedi anfon gohebiaeth at Stuart France a/neu ei gyfreithiwr ar y mater hwn ac roedd CNC yn hapus i rannu hon pe bai aelodau'n dymuno ei gweld (ar yr amod bod hyn yn dderbyniol i Stuart France).
- Nododd Jont fod y cwestiwn a ddylai gweithgaredd gael ei gynnwys yn nhermau deddfwriaeth gyfredol ar wahân i'r cwestiwn a ddylid gwella hawliau mynediad ar gyfer ogofa.
- Nododd Jont ei fod yn aneglur a oedd Stuart France wrth godi'r mater hwn yn cynrychioli safbwynt Cyngor Ogofa Cymru neu'n rhoi ei safbwyntiau personol ei hun.
- Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn bosibl dod i gytundeb yn y cyfarfod gan fod safbwyntiau CNC a Chyngor Ogofa Cymru yn begynedig, ond byddai angen i drafodaethau ynghylch materion deddfwriaethol cenedlaethol gynnwys Llywodraeth Cymru.
- Mapiau Mynediad: Mae CNC yn cydnabod ac yn ymddiheuro am y diffyg parhaus o wybodaeth wedi'i mapio ar fynediad agored. Mae'r prosiect we TG i ddatrys hyn wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae wedi cyrraedd y cam profi arbenigol. Os bydd y prosiect yn cadw at yr amserlen gyfredol, bydd y wybodaeth sydd wedi'i mapio o ran cau a chyfyngiadau ar fynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gael ar wefan CNC erbyn diwedd mis Ionawr.
- Mae swyddi swyddogion Llwybr Arfordir Cymru bellach yn cael eu hysbysebu'n allanol.

Sustrans: Gwyn Smith

- Mae Sustrans wedi cynhyrchu taflen i gyhoeddi'r cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu'r map rhwydwaith integredig fel rhan o ddarpariaethau'r Ddeddf Teithio Llesol.

---

## 6. Unrhyw Faterion Eraill

Erfyniwyd ar yr aelodau i sicrhau eu bod yn hysbysu'r ysgrifenyddiaeth os ydynt yn cynllunio mynychu'r cyfarfod er mwyn sicrhau y darperir cyfleusterau digonol.

---

## 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cadarnhawyd dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

- 7 Mawrth 2017 – Swyddfa CNC, Maes y Ffynnon, Bangor, LL57 2DW.

Dylai pawb nodi y bydd dyddiadau cyfarfodydd a phapurau bellach ar gael ar wefan CNC:

<http://naturalresources.wales/out-and-about/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/networks-and-partnerships/national-access-forum-for-wales/?lang=cy>

---



Atodiad

## Crynodeb o'r gweithdy

Er mwyn annog yr aelodau i edrych ar ddata Hamdden Awyr Agored Cymru ac ystyried yr hyn y mae'n ei olygu a sut y gallant ei ddefnyddio yng ngwaith eu sefydliad eu hunain. Rhannwyd y cyfarfod yn dri grŵp i ystyried dau gwestiwn allweddol ar gyfer 'mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn aml':

Cwestiwn 1: 'Beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hyn:

- Ar y cyd
- Yn ymarferol?'

Cwestiwn 2: 'Beth gall eich sefydliad ei wneud i gyfrannu at yr atebion?'

**Ar ddiwedd y gweithdy, crynhodd hwyluswyr y pwyntiau allweddol, a darperir y rhain yn y blwch. Mae'r pwyntiau manwl a gofnodwyd ym mhob grŵp wedi eu cofnodi isod.**

### Crynodeb o'r drafodaeth:

- Gwella mynediad at wybodaeth – darparu pwynt canolog
- Mynd i'r afael â mynediad corfforol
- Mae angen mwy o ymchwil i ddeall 'pam' mae gostyngiad
- Cymdeithas Ceffylau Prydain: Ymgyrch 'Dead Slow'
- CLA Cymru: Pontio'r bwlch rhwng amgyffrediad a gwirionedd
- Cwm Elan: Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Mae materion ynghylch profiadau 'pam' yn dda
- Gwybodaeth a deunydd hyrwyddo ar gael
- Pwysig, Posibl, Derbyniol
- Diffyg dull cyd-drefnedig fel sector – gellid gweithio ar hyn. Enghraifft y Flwyddyn Antur
- Ystyried galluogi pobl i gynnwys cofnodion o deithio llesol (cerdded a beicio) wrth iddynt feddwl dros eu gweithgareddau hamdden
- Angen deall y rhesymau wrth wraidd y gostyngiad – amgyffrediadau posibl o deithio llesol
- Darparu buddsoddiad lle mae galw

**Darperir adroddiad manwl pob un o grwpiau'r gweithdy isod.**

Grŵp 1: Juliet Michael

Cwestiwn 1

- Dylai gwybodaeth a mapiau Cymru gyfan fod ar gael mewn un lle canolog fel y mae gwefan Llwybr Arfordir Cymru yn dod â'r wybodaeth am y llwybrau ynghyd – fodd

bynag, mae'n bosibl na fyddai'r bobl sy'n cymryd rhan yn gyson/nad ydynt yn cymryd rhan yn meddwl neu'n gwybod y gallant fynd at safle ar-lein – angen opsiynau eraill

- Sicrhau ei bod hi'n hawdd cael mynediad at fynediad corfforol, yn arbennig ar gyfer pobl llai abl
- Angen gwaith ymchwil i ddeall yr achosion wrth wraidd y data – pam mae pobl erbyn hyn yn mynd yn eu car ac yn gyrru eu cŵn i fan i fynd â nhw am dro yn lle cerdded yn lleol?
- Bydd pobl yn aros yn eu cynefinoedd hysbys, lleoedd maent yn eu hadnabod, sy'n golygu bod newid arferion yn heriol iawn
- Angen deall pam mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau, e.e. beicio a cherdded, wedi cynyddu – ydy hyn yn gysylltiedig â sylw gan y cyfryngau?
- Ar gyfer marchogion, maent ag ofn llwybrau mynediad gwael, anniogel
- Dargyfeirio cyllid o ddigwyddiadau elft (yn Rio, costiodd pob medal a enillwyd £4m mewn cyllid i'r DU) a gwario ar gyfleusterau i bawb
- Pregethu wrth y didroedig – mynd â'r negeseuon i fannau lle mae pobl llai gweithgar

#### Cwestiwn 2

- Cymdeithas Ceffylau Prydain – ymgyrch 'Dead Slow' ac ymgyrchoedd eraill wedi'u hanelu at yrwyr, hefyd Codau Ymddygiad – mae'r rhain i gyd yn gwella ansawdd llwybrau
- CLA Cymru – gwaith i hysbysu tirfeddianwyr o'u cyfrifoldebau mynediad ac annog ffermydd i agor ar ddyddiau Sul – datblygu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fynediad a chyfleoedd yn y cefn gwlad
- Cwm Elan – wedi cael £3.3m o gyllid y CDL ar gyfer prosiect partneriaeth Pobl, Natur a Thirwedd Dŵr a fydd yn gwella mynediad ac yn gwneud i fwy o bobl fynd allan (gweler eu nodiadau yn y papur Cyfraniadau)

#### Grŵp 2: Jont Bulbeck

##### Cwestiwn 1

Cyfranogiad/cystadleuaeth â gweithgareddau eraill:

- Argaeledd gwybodaeth
- Profiadau a chyfleoedd yn gyffredinol dda
- Cynnydd yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yng Nghwm Elan a'r amser maent yn aros; Canolbwyntio ar ardal boblogaidd gyda thwristiaid (Cwm Elan wrthi'n archwilio defnyddwyr)
- Hamdden anffurfiol

Angen iddo fod: Yn bwysig/Yn bosibl/Yn dderbyniol

- Mwy o weithgarwch yn y tri man hynny
- Pwysigrwydd ffactorau diwylliannol

##### Cwestiwn 2: Beth y gellir ei wneud

- Y sector ehangach yn canolbwyntio ar gynyddu defnyddwyr ac felly'n gweithio ar y cyd, e.e. Ymgyrch Croeso Cymru ar gyfer y 'Flwyddyn Antur'.

- Ystyried galluogi pobl i gynnwys cofnodion o deithio llesol (cerdded a beicio) wrth iddynt feddwl dros eu gweithgareddau hamdden
- Manteisio ar gyfleoedd, e.e. Cymru ymhlith y deg cyrchfan orau ar gyfer gweithgareddau
- Gweithgaredd/cyd-drefniant â phwyslais penodol, e.e. cyfle

Yn unigol – datod deddfwriaeth gymhleth

- Gwell ffocws ar ble
- Sut mae cefndir deddfwriaeth yn yr Alban yn effeithio ar gyfranogiad?

Grŵp 3

Hwylusydd: Carys Drew

Mae angen deall:

- y rheswm wrth wraidd y gostyngiad – h.y. ymchwil pellach er mwyn deall hyn
- y rheswm wrth wraidd y cynnydd mewn rhai gweithgareddau

Buddsoddi mewn isadeiledd a hyrwyddo cyfleoedd

Mae darlun economaidd/cymdeithasol cymhleth

Mae angen mwy o gysylltiad rhwng teithio llesol a hamdden

Cwestiwn ynglŷn ag a wnaeth ymatebwyr yr arolwg ystyried eu gweithgaredd yn ddefnydd hamddenol neu deithio llesol a ph'un a allai hyn fod yn atebol am y gostyngiad.

Awgrym:

- Astudiaethau achos ac enghreifftiau o ymyriadau sydd wedi bod yn llwyddiannus
- Oes tystiolaeth bod buddsoddi mewn isadeiledd yn dod â chynnydd mewn defnydd?
- Meddygon teulu i ragnodi cerdded fel modd o wella iechyd pobl – mae 'Dewch i Gerdded Cymru' yn gynllun i gyflwyno pobl i'r gweithgaredd hwn
- Mae hyrwyddo gweithgareddau wedi aros yn sefydlog ac mae angen hyrwyddo hamdden awyr agored y tu hwnt i'r cynulleidfaoedd arferol.
- Yn Sir Fynwy, roedd cynllun cerdded iachus yr awdurdod lleol yn ordanysgrifedig ac roedd rhestr aros, sy'n dangos bod galw am y math hwn o gymorth i gyflwyno pobl i gyfleoedd mynediad.
- Mae angen dynodi gwahanol farchnadoedd targed, e.e. teuluoedd a phlant ifanc.

DIWEDD.